Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2688A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 21

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 28

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig cam dau yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig cam un ar gyfer 2021 ystyried trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a sut y mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Fe wnaeth pandemig COVID-19 hi'n ofynnol i gyrff y GIG fynd ati'n gyflym i addasu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau penderfynu i sicrhau bod camau gweithredu amserol yn cael eu cymryd i ymateb i'r ymchwydd yn y galw brys o ganlyniad i COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Fe wnaeth ein hadroddiad ar asesiad strwythuredig 2020 ystyried trefniadau llywodraethu diwygiedig y Bwrdd Iechyd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynir gan COVID-19, gan hefyd ddechrau bwrw ymlaen â chynlluniau i ailosod ac adfer gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Felly, cafodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2021 ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig gan felly sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Mae ail gam ein hasesiad strwythuredig yn 2021 wedi ystyried sut y mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu dros y 12 mis diwethaf. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi cael ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn dylanwadu ar drefniadau at y dyfodol i sicrhau llywodraethu da a chyflawni gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o'r modd y mae'r Bwrdd wedi bod yn craffu ar ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22.

5 Rydym wedi darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau ar asesiadau strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sy'n effeithiol at ei gilydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau; fodd bynnag, mae bylchau o ran capasiti yn y tîm llywodraethu corfforaethol a throsiant aelodau annibynnol**

**yn achosi pryder. Mae cynlluniau wedi cael eu datblygu ar gyfer ymateb i COVID-19 a thrawsnewid gwasanaethau gofal iechyd. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddefnyddio'i drefniadau da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod trigolion Powys yn cael eu blaenoriaethu'n briodol gan wasanaethau a gomisiynwyd. Mae adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n dda; fodd bynnag, bydd cyflawni'r arbedion ariannol gofynnol yn gryn her.**

7 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da at ei gilydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau ac mae wedi diwygio'r strwythur pwyllgorau yn ddiweddar yn dilyn adolygiad mewnol ac ar sail gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig. Fodd bynnag, ceir nifer o fylchau o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol y bydd angen eu rheoli'n effeithiol. Mae tryloywder busnes y Bwrdd i'r cyhoedd yn dda, ac mae Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd wedi cynnal sesiynau holi ac ateb cyhoeddus byw y rhoddwyd cyhoeddusrwydd da iddynt. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae rhai papurau agenda wedi bod yn cael eu darparu'n hwyr ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau a allai o bosibl effeithio ar allu aelodau annibynnol i graffu'n effeithiol arnynt. Bydd nifer o aelodau annibynnol yn gadael y Bwrdd Iechyd cyn bo hir, ac mae angen hyfforddiant sefydlu ffurfiol i helpu aelodau newydd i ymgynefino'n gyflym â'u rolau.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer rheoli COVID-19 ac adnewyddu/trawsnewid gwasanaethau gofal iechyd. Ategir cynlluniau gan gamau gweithredu penodol, mesuradwy ac amserol ar gyfer cyflawni, ac mae cynnydd yn cael ei oruchwylio a'i fonitro'n dda trwy bwyllgorau'r Bwrdd Iechyd. Ceir tystiolaeth dda o weithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau a gomisiynwyd, ac mae goruchwyliaeth ar y gwaith hwn yn dda.

9 Er bod y Bwrdd yn craffu'n dda ar risgiau, mae angen diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i adlewyrchu risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol newydd. Mae gwaith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn llawn ag argymhellion o adroddiadau Archwilio Mewnol ar reoli risg yn 2019 a 2020. Mae'r Bwrdd Iechyd yn diwygio'i fframwaith rheoli risg. Bydd angen i'r gwaith ddangos bod risgiau gweithredol ar gofrestrau risgiau adrannau a chyfarwyddiaethau'n cael eu huwchgyfeirio'n briodol. Bydd angen cyflwyno hyfforddiant cynhwysfawr i staff. Er bod trefniadau da ar waith i fonitro cynnydd gydag argymhellion o archwiliadau ac adolygiadau, mae camau gweithredu i fynd i'r afael â nifer o argymhellion a ail-flaenoriaethwyd bellach yn hwyr yn cael eu cymryd.

10 Mae ffocws y Bwrdd Iechyd ar les staff wedi bod yn gadarnhaol, ac mae cynlluniau da yn eu lle i barhau i ddatblygu cymorth gyda lles. Fodd bynnag, oherwydd natur unigryw'r Bwrdd Iechyd gyda'r mwyafrif o'r gofal iechyd yn gael ei ddarparu gan wasanaethau a gomisiynwyd, mae angen ffocws parhaus ar ansawdd y gofal i sicrhau bod trigolion Powys yn cael eu blaenoriaethu'n briodol gan ddarparwyr i sicrhau deilliannau da ar gyfer cleifion.

11 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i reoli ei adnoddau ariannol ac mae'n parhau i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol o un flwyddyn i'r llall. Mae rheolaethau ariannol yn effeithiol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth ariannol eglur i fonitro'i berfformiad ac adrodd arno. Fodd bynnag, bydd cyflawni arbedion

yn gryn her eleni ac mae angen gwaith pellach i sicrhau y cyflwynir adroddiadau mewn modd amserol i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad.

## Argymhellion

12 Caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 1.**

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

| Argymhellion |
| --- |
| **Sefydlu aelodau annibynnol**<br>A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn profi cyfnod o newid sylweddol o fewn ei garfan o aelodau annibynnol. Rhaid i aelodau annibynnol gael eu cynorthwyo'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau trwy ddarparu rhaglen sefydlu ddigonol a datblygiad parhaus er mwyn iddynt allu craffu'n effeithiol ar yr wybodaeth a gyflwynir iddynt. I ategu'r rhaglen sefydlu genedlaethol, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen leol o hyfforddiant sefydlu cyn gynted â phosibl i helpu aelodau annibynnol newydd i ymgynefino'n gyflym â'u rôl. |
| **Penodi aelodau cyswllt o'r Bwrdd**<br>A2 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw aelodau cyswllt o'r Bwrdd ar hyn o bryd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Yn flaenorol roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion) o Gyngor Sir Powys yn aelod cyswllt o'r Bwrdd ond nid yw wedi mynychu. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Sir Powys i ganfod rhywun addas yn ei le cyn gynted â phosibl. |
| **Papurau ar gyfer agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau**<br>A3 Trefnir bod bwndeli agendâu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, ar rai achlysuron caiff rhai papurau eu darparu'n hwyr a'u hychwanegu at fwndel ar wahân a elwir yn 'bapurau atodol'. Nid yw papurau hwyr yn caniatáu digon o amser ar gyfer craffu ac mae defnyddio'r term papurau atodol yn gamarweiniol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau cyn gynted â phosibl bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn:<br>• lleihau, hyd y gellir, yr arfer o gynnwys papurau hwyr;<br>• rhoi'r gorau i'r arfer o enwi papurau hwyr yn rhai 'atodol'; ac<br>• ymgorffori papurau hwyr ym mhrif fwndel yr agenda wrth gyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar y wefan. |

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

13 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd tra'r oedd yn parhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig.

14 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sy'n effeithiol at ei gilydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, er bod angen sylw i wella amseroldeb papurau agendâu, ei bod yn ofynnol rhoi hyfforddiant sefydlu lleol i aelodau annibynnol a bod tair swydd heb eu llenwi ar gyfer aelodau cyswllt. Hefyd, ceir bylchau amlwg yn y tîm llywodraethu corfforaethol sy'n achosi pryder. Mae cynlluniau ar gyfer ymateb i COVID-19 a thrawsnewid gwasanaethau i adfer amseroedd aros yn eu lle ac yn cael eu hategu gan drefniadau da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chraffu effeithiol ar gyflawni. Bydd gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â darparwyr a gomisiynwyd yn allweddol o ran cyflawni deilliannau da i drigolion Powys. Mae gwaith yn parhau i gryfhau trefniadau rheoli risg.**

## Cynnal busnes yn effeithiol

15 Canfuom **ar y cyfan fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, fod strwythur pwyllgorau newydd wedi cael ei roi ar waith eleni a bod ymrwymiad i wella'n barhaus. Fodd bynnag, ceir tair swydd heb eu llenwi ar gyfer aelodau cyswllt, yn ogystal â nifer o fylchau o ran capasiti o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol a dim hyfforddiant sefydlu ffurfiol ar gyfer aelodau annibynnol o'r Bwrdd ar adeg pan fo trosiant yn sylweddol. Mae gwaith i'w wneud i wella amseroldeb rhai o bapurau agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau a'r modd y'u rheolir.**

### Tryloywder cyhoeddus Busnes y Bwrdd

16 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu'n dda i gyfarfodydd rhithwir y Bwrdd, gydag unigolion yn mynychu ar wahân o bell. Mae cyfarfodydd rhithwir y Bwrdd bellach wedi hen ennill eu plwyf, ac mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n effeithiol. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw, ac mae recordiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan allanol y sefydliad i'w gwylio'n ddiweddarach. Roedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd ar 28 Gorffennaf 2021 yn un rhithwir, ac roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu ymuno â'r sesiwn a chyfranogi.

17 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn 'hysbysebu' cyfarfodydd y Bwrdd na phwyllgorau ar ei lwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hwn yn gyfle wedi'i golli i gynyddu nifer aelodau'r cyhoedd sy'n arsylwi ar gyfarfodydd byw. Fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr wedi cynnal sesiynau holi ac ateb cyhoeddus byw, y rhoddwyd cyhoeddusrwydd da iddynt.

18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ffrydio cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd yn fyw i alluogi aelodau'r cyhoedd i arsylwi arnynt. Bydd hyn yn cynyddu mynediad y

cyhoedd at fusnes y Bwrdd yn sylweddol. Dywedodd y Bwrdd wrthym fod y goblygiadau o ran adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn bosibl o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn y cyfamser, mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn darparu opsiwn i aelodau'r cyhoedd ofyn am gael bod yn bresennol trwy wahoddiad, er nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law ar adeg ein hadolygiad ni.

19 Mae'r agenda a'r papurau ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cyhoeddi cyn cyfarfodydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu cofnodion da o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau sy'n crynhoi trafodaethau'n gywir. Cyhoeddir cofnodion wedi'u cymeradwyo ar y wefan o fewn papurau agenda'r cyfarfod nesaf.

20 Fel rhan o'n gwaith, fe wnaethom adolygu gwefan y Bwrdd Iechyd, (**gweler Arddangosyn 2, 2018 A4**) a chanfod nad yw'r wefan yn darparu mynediad rhwydd at bolisïau'r Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 2: cynnydd a wnaed gydag argymhellion blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Hygyrchedd y Rhyngrwyd**<br>**Asesiad Strwythuredig 2018 A4**<br>Nid yw tudalennau rhyngrwyd y Bwrdd Iechyd yn cynnig mynediad at bolisïau cyfredol fel y polisi atal twyll. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei wefan er mwyn cynnig mynediad rhwydd at bolisïau a strategaethau cyfredol. | **Ar y gweill**<br>Mae'r wefan allanol yn cynnwys adran Polisïau'r Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, yr unig bolisi ar gael i'w lawrlwytho yw'r Polisi Gweithio i Wella. Er bod y wefan yn cynnwys dolenni i 'bolisïau clinigol', 'polisïau anghlinigol', mae'r naill a'r llall yn arwain at ddatganiad bod rhaid gofyn am bolisïau gan y Bwrdd Iechyd (trwy gyflwyno ffurflen neu ffonio). |

## Trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau

21 Mae cadeiryddion y Bwrdd a phwyllgorau'n nodi'n glir beth yw diben pob eitem fusnes ac yn aildrefnu agendâu'n gyflym mewn ymateb i unrhyw faterion cysylltedd sy'n digwydd yn ystod cyfarfodydd. Ym mhob cyfarfod, mae cadeiryddion yn atgoffa'r rhai sy'n bresennol am foesau cyfarfodydd rhithwir ac yn gosod y cywair ar gyfer trafodaeth adeiladol. Fe gymerodd rhai pwyllgorau fwy o amser i addasu a dod yn hyfedr mewn defnyddio technoleg ar gyfer cyfarfodydd rhithwir; fodd bynnag, canfu ein harsylwadau diweddar fod yr anawsterau cychwynnol wedi cael eu datrys.

22 Ar ddechrau'r pandemig a than fis Tachwedd 2020 bu'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd misol gan y Bwrdd. Ym mis Ionawr 2021, fe newidiodd y Bwrdd yn ôl i

gwrdd bob deufis, ac eithrio mis Mehefin 2021 pan gynhaliwyd dau gyfarfod, y naill i gytuno ar y cyfrifon blynyddol a'r llall i gymeradwyo Cynllun Blynyddol 2021-22 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae Aelodau'r Bwrdd wedi parhau i gael gweld materion COVID-19 trwy sesiynau briffio rheolaidd y Bwrdd.

23 Ers ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynnal cyfres o sesiynau datblygu'r Bwrdd ar ystod eang o destunau gan gynnwys Rhaglen De Powys[1], diogelu, trais domestig a hawliau plant, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Papur Gwyn Gofal Cymdeithasol a chynllunio gwaith adnewyddu ac adfer ar gyfer 2021-22.

24 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal amserlen y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch, cafodd rhai o gyfarfodydd pwyllgorau eraill eu canslo a lle'r oedd yn ofynnol, aethpwyd â busnes i'r Bwrdd yn uniongyrchol. Yn ystod 2020 a hyd at fis Ebrill 2021, dim ond pan oedd angen y cyfarfu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio.

25 Bydd y Bwrdd Iechyd yn profi newid sylweddol yn ei garfan o aelodau annibynnol. Bydd yr Is-Gadeirydd yn gadael y Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2021 ac mae'r broses i recriwtio rhywun yn ei le wrthi'n mynd rhagddi. Bydd y Cadeirydd yn gadael ym mis Medi 2022 hefyd. Rhoddwyd estyniad o flwyddyn ar gyfnod y Cadeirydd yn ei rôl i leihau i'r eithaf y risg y byddai'r ddau aelod allweddol yn gadael yn syth ar ôl ei gilydd. Bydd dau aelod annibynnol arall yn gadael yn ystod 2022. Penodwyd dau aelod annibynnol newydd yn ystod 2021. Mae hyfforddiant sefydlu a gweithgarwch datblygu priodol ar gyfer y Bwrdd yn hollbwysig i sicrhau bod aelodau annibynnol newydd yn ymgynefino'n gyflym â'u rôl. Fodd bynnag, heblaw am y rhaglen sefydlu genedlaethol a rhai cyfarfodydd lleol, nid oes gan y Bwrdd Iechyd raglen sefydlu leol ffurfiol ar gyfer aelodau annibynnol (gweler **Argymhelliad 1**).

26 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw aelodau cyswllt o'r Bwrdd ar hyn o bryd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Penodwyd Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion) Cyngor Sir Powys fel Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (heb hawl i bleidleisio) ond nid yw wedi mynychu'r Bwrdd. Er gwaethaf pwysigrwydd y rôl hon, nid yw'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol wedi dod o hyd i rywun addas yn ei le (gweler **Argymhelliad 2**).

27 Mae Rheolau Sefydlog Enghreifftiol Llywodraeth Cymru'n cynnwys y gofyniad i sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd amlddisgyblaethol i ddarparu mewnwelediad clinigol ac i gynghori'r Bwrdd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu fforwm o'r fath eto (gweler **Arddangosyn 3**, **2018 A2**). Unwaith y bydd wedi ei sefydlu, y disgwyliad yw y bydd Cadeirydd y Fforwm yn dod yn aelod cyswllt o'r Bwrdd. Er nad oes fforwm ymgysylltu clinigol ffurfiol wedi cael ei sefydlu i gynghori'r Bwrdd, rydym wedi gweld tystiolaeth o ymgysylltu clinigol ac o roi cyngor clinigol i'r Bwrdd.

[1] Rhaglen o waith i ailddylunio llwybrau cleifion yw Rhaglen De Powys, sy'n deillio o agor Ysbyty Athrofaol y Faenor.

28 Mae’r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn bodoli i ddarparu cyngor annibynnol ar unrhyw agwedd ar fusnes y Bwrdd Iechyd, gyda’r aelodau’n dod o sefydliadau priodol yn y gymuned. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn 2018-19, nid oedd yn gweithredu fel a fwriadwyd. Bu oedi o ran ailystyried cylch gwaith a gwaith y Grŵp oherwydd y pandemig. Ni chyfarfu’r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn 2020-21, ac mae rôl y Cadeirydd yn wag. Bydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei ailsefydlu ym mis Mawrth 2022. Er gwaethaf hyn, rydym wedi gweld enghreifftiau o ymgysylltu â rhanddeiliaid o fewn prosiectau penodol.

**Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed gydag argymhellion blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| **Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd Asesiad Strwythuredig 2018 A2**<br>Nodir yn y Rheolau Sefydlog ei bod hi'n ofynnol sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd fforwm o'r fath. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd i gynghori'r Bwrdd ynghylch strategaeth a chyflawniad lleol. | **Heb ei Gwblhau**<br>Mae trafodaethau ynghylch sefydlu grŵp ymgysylltu clinigol yn dal i fod yn y camau cynnar. Mae’r Rhaglen Lywodraethu Flynyddol 2021-22 yn nodi y bydd cylch gorchwyl drafft ar gyfer y grŵp ymgysylltu clinigol hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022. |

## Gwybodaeth sy’n ymwneud â’r Bwrdd a phwyllgorau

29 Trefnir bod papurau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael i aelodau’r Bwrdd ac fe’u gosodir ar y wefan ymlaen llaw cyn cyfarfodydd. Canfu ein harsylwadau ni ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fod digon o ffocws ar faterion allweddol a thrafodaeth amdanynt a bod cadeiryddion yn annog pawb i gyfrannu. Fodd bynnag, rydym wedi sylwi bod nifer o bapurau ychwanegol hwyr wedi bod yn cael eu cyflwyno i’r Bwrdd a rhai pwyllgorau. Mae hyn yn aml yn cynnwys adroddiad y Prif Weithredwr. Lle caiff papurau’r agendau eu darparu’n hwyr gall hyn roi pwysau afresymol o ran amser ar aelodau annibynnol i fod â digon o amser i ddarllen yr wybodaeth a chraffu arni mewn modd effeithiol i baratoi ar gyfer cyfarfodydd.

30 Mae hefyd yn achosi dryswch bod papurau hwyr yn cael eu disgrifio fel ‘papurau atodol’ ac yn cael eu gosod ar y wefan ar wahân i’r prif fwndel o bapurau ar gyfer cyfarfodydd, yn hytrach na’u bod yn cael eu hymgorffori mewn un bwndel. Mae defnyddio’r gair ‘atodol’ yn awgrymu mai gwybodaeth ategol yw’r papurau sy’n

ychwanegol at y prif bapurau ar gyfer y cyfarfod, sydd ddim yn wir (gweler **Argymhelliad 3**).

31 At ei gilydd, gwneir defnydd cyson o'r templed safonol ar gyfer papurau cyflwyno i gyd-fynd â phapurau'r Bwrdd. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y papurau cyflwyno adroddiadau'n darparu crynodeb defnyddiol o'r materion allweddol a nodir ym mhapurau'r agenda. Nid yw adroddiadau ar berfformiad ariannol yn defnyddio'r templed ar gyfer papurau cyflwyno; fodd bynnag, darperir yr wybodaeth gyfatebol ar y dudalen ragarweiniol. Serch hynny, mae cyfle o hyd i wella papurau cyflwyno, gweler **Arddangosyn 4, 2018 A6**.

32 Mae'r Bwrdd yn dal i gael trosolwg o berfformiad yn erbyn Fframwaith Cyflawni'r GIG 2020-21 yn lle Adroddiadau Perfformiad Integredig rheolaidd llawnach y Bwrdd Iechyd. Trefniant pragmatig interim yw hwn a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig i ddarparu trosolwg ar y dangosyddion mwyaf hollbwysig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â COVID-19. Mae'r drosolwg yn cynnwys arosiadau am wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynwyd yn ogystal â mesurau perfformiad allweddol ar gyfer gofal sylfaenol. Mae'r drosolwg yn amlygu meysydd sy'n achosi pryder a risgiau i helpu i ffocysu gwaith craffu. Mae'r defnydd o Siartiau Rheoli Proses Ystadegol yn darparu darlun eglur o berfformiad y Bwrdd Iechyd dros amser, ac mae'n hawdd gweld ble y mae perfformiad yn gwella neu ble mae wedi mynd oddi ar y trywydd iawn.

**Arddangosyn 4: cynnydd a wnaed gydag argymhellion blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Ansawdd Papurau Cyflwyno ar gyfer Adroddiadau'r Bwrdd Asesiad Strwythuredig 2018 A6**<br>Mae'r dull o lenwi papurau cyflwyno adroddiadau yn amrywio, a allai gyfyngu ar allu aelodau'r bwrdd i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella papurau cyflwyno adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn amlygu agweddau pwysig yr adroddiad, yn hytrach na disgrifio cynnwys neu ddiben yr adroddiad yn unig. | **Ar y trywydd iawn ond heb ei gwblhau eto**<br>At ei gilydd mae papurau cyflwyno diweddar ar gyfer adroddiadau'r Bwrdd yn defnyddio templed cyson. Er bod y templed yn cynnwys lle i ddynodi bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau, nid oes cyfarwyddyd cynorthwyol i ddynodi ble nad oes angen un. Felly, nid yw'n glir a yw'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn eisiau ynteu heb fod yn ofynnol. |

## Ymrwymiad y Bwrdd i wella'n barhaus

33 Ym mis Ebrill 2021, fe wnaeth y Bwrdd adolygu effeithiolrwydd trefniadau ei Fwrdd a Phwyllgorau fel rhan o Raglen Datblygu'r Bwrdd. Cynhaliwyd gweithdy i archwilio barn aelodau annibynnol ac adnabod cryfderau a gwendidau gyda'r strwythur pwyllgorau cyfredol. Nodwyd nifer o feysydd yr oedd angen ymdrin â hwy, ac ynghyd â gwersi o'r modd y gweithredodd pwyllgorau yn ystod y pandemig, fe arweiniodd at strwythur pwyllgorau newydd. Cafodd y strwythur pwyllgorau diwygiedig ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021 ac fe gymeradwywyd cylch gorchwyl newydd wedyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2021. Darperir crynodeb o'r newidiadau ym **mharagraffau 34** i **38**.

34 Roedd y Bwrdd yn teimlo bod angen i unrhyw waith i ddatblygu strategaeth gael ei wneud ar y cyd gan y Bwrdd yn hytrach na chael ei ddirprwyo i un o bwyllgorau'r Bwrdd. Felly, mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio wedi cael ei ailenwi; y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaeth ac Iechyd y Boblogaeth yw ei enw newydd. Cyfarfu'r grŵp hwn ym mis Hydref 2021 ar gyfer ei gyfarfod cyntaf un a bydd yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ei drefniadau cynllunio, dull partneriaeth, ac ynghylch sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael ag iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau.

35 Fe wnaeth y Bwrdd hefyd nodi angen i sicrhau cylch gwaith mwy hydrin ar gyfer y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch gyda mwy o ffocws ar brofiad cleifion. Mae'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch wedi newid i fod y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch, sy'n pwysleisio'i rôl mewn perthynas â phrofiad cleifion. Cyfarfu'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf ym mis Hydref 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwneud gwelliannau i'r modd yr adroddiad ar iechyd meddwl a'r modd y caiff ei fonitro. Yn awr mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau iechyd meddwl fel rhan o'r drefn arferol, ac ym mis Hydref 2021, cafodd yr Adroddiad Ansawdd Integredig cyntaf gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl.

36 Mae Pwyllgor newydd ar gyfer y Gweithlu a Diwylliant wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod ffocws priodol gan y Bwrdd ar ddiwylliant ac arfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r Pwyllgor hwn, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf un ym mis Hydref 2021, wedi'i fwriadu i sicrhau bod y modd y rhoddir y fframwaith datblygu sefydliadol ar waith yn cyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau strategol a chynllunio.

37 Yn olaf, mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi newid i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad, gan ddarparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau i gyrraedd nodau a chyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Pwyllgor gylch gwaith sicrwydd eang gan gynnwys craffu ar reolaeth ariannol, perfformiad ariannol, perfformiad gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynwyd, rheoli gwybodaeth a gwasanaethau cymorth ac ystadau.

38 Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth i gyd yn ddigyfnewid ers 2019, er bod eu cylchoedd gorchwyl wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r strwythurau pwyllgorau newydd.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei adolygiad o'r trefniadau pwyllgorau a roddwyd ar waith yn 2019 (gweler **Arddangosyn 5**, **2019 A2**). Fodd bynnag, wrth roi strwythur pwyllgorau newydd ar waith ym mis Medi 2021, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ar adeg briodol ei fod yn gweithredu fel a fwriadwyd. O ystyried bod y trefniadau pwyllgorau'n weddol newydd, mae'n rhy gynnar i ni wneud sylwadau am eu heffeithiolrwydd.

**Arddangosyn 5: cynnydd a wnaed gydag argymhellion blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Strwythur Pwyllgorau**<br>**Asesiad Strwythuredig 2019 A2**<br>Cafodd pwyllgorau'r Bwrdd eu hailstrwythuro a'u symleiddio yn 2019. Dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso'r strwythur pwyllgorau newydd yn ei gyfanrwydd i sicrhau bod prosesau penderfynu, sicrwydd a chraffu'n briodol a bod iechyd meddwl, llywodraethu gwybodaeth a'r gweithlu'n cael digon o sylw yn y pwyllgorau newydd. | **Wedi'i gwblhau**<br>Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd strwythur pwyllgorau diwygiedig ym mis Gorffennaf 2021 i sicrhau prosesau craffu a phenderfynu effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth ddyladwy i'r cwestiwn pa bwyllgorau fydd yn cael sicrwydd ynghylch iechyd meddwl, llywodraethu gwybodaeth a'r gweithlu. |

## Sicrhau bod dyluniad sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da

40 Fe wnaeth ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 ddisgrifio Fframwaith Llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y Pandemig a roddwyd ar waith ar 17 Mawrth 2020 yn seiliedig ar Fframwaith Pandemig a Chynllun Argyfyngau Sifil Powys. Dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr, darparodd y Grŵp Aur Strategol arweinyddiaeth gref i ymateb i COVID-19 a pharhau i roi gofal i boblogaeth Powys. Ni wnaed unrhyw newidiadau i Gynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau'r Bwrdd.

41 Daeth y Bwrdd Iechyd â'r Grŵp Aur Strategol i ben ar 5 Mai 2021. Ers hynny, mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi cynnal goruchwyliaeth ar y Bwrdd Iechyd, ac yn arbennig yr ymateb i COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi ei fwriad i adolygu ei fframwaith ar gyfer ymateb i'r pandemig yn ystod 2022 i fyfyrio ynghylch gwersi o bandemig COVID-19 a'u hymgorffori.

42 Y llynedd, daeth ein hadroddiad ar yr Asesiad Strwythuredig i'r casgliad bod y tîm gweithredol wedi dangos cryfder, cydlyniad, a chydnerthedd trwy gydol cyfnod y pandemig, ac mae hynny wedi parhau i fod yn wir. Mae tîm llawn o gyfarwyddwyr gweithredol yn ei le yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Meddygol parhaol ym mis Chwefror 2021. Bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ymddeol ym mis Mawrth 2022 hefyd ac mae'r broses recriwtio wrthi'n mynd rhagddi.

43 Fodd bynnag, fe wnaeth Ysgrifennydd y Bwrdd adael y Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2021. Mae trefniant interim wedi cael ei wneud ar gyfer cyfnod o 9 mis; fodd bynnag, ni fydd y penodiad yn dechrau tan fis Ionawr 2022 sy'n gadael bwlch o ran capasiti yn ystod y cyfnod hwn. Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o aelodau allweddol o staff yn y tîm llywodraethu corfforaethol wedi dynodi eu bwriad hwythau i adael, gan gynnwys y Pennaeth Risg a Sicrwydd. O ystyried y trosiant sylweddol o ran aelodaeth y Bwrdd sydd i fod i ddigwydd dros y misoedd nesaf, mae bylchau yn nhîm llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn achosi pryder.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[2]

44 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau ar gyfer parhau â'i ymateb i COVID-19 a thrawsnewid gwasanaethau gofal iechyd i ddechrau adfer amseroedd aros. Ceir tystiolaeth gadarnhaol o weithio mewn partneriaeth, mae cynlluniau'n nodi camau gweithredu penodol, mesuradwy ac amserol ar gyfer cyflawni a cheir goruchwyliaeth dda gan y Bwrdd ar gynnydd gyda chynlluniau cyflawni.**

45 Yn 2017, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd, ynghyd â Chyngor Sir Powys trwy Fwrdd Cydbartneriaeth Powys, ddatblygu Strategaeth Iechyd a Gofal 10 mlynedd ar y cyd ar gyfer rhanbarth Powys.

46 Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd 2021-22 (y Cynllun Blynyddol) yn cwmpasu'r ymateb parhaus i COVID-19, darparu ac adfer gwasanaethau gofal iechyd ac uchelgais y Bwrdd Iechyd ar gyfer adnewyddu/trawsnewid gwasanaethau i helpu i gefnogi cynnydd parhaus i gyflawni'r strategaeth Iechyd a Gofal 10 mlynedd.

47 Fe wnaeth y Bwrdd drafod Cynllun Blynyddol drafft y Bwrdd Iechyd yn ystod ei gyfarfod mewn pwyllgor ym mis Mawrth 2021. Mae'r blaenoriaethau sefydliadol uniongyrchol a nodir yn y Cynllun yn dal i fod yr un fath â'r flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, fe ychwanegwyd chwe blaenoriaeth sefydliadol newydd sy'n ymwneud ag adnewyddu.

48 Cafodd y Bwrdd Iechyd adborth gan Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Blynyddol drafft. Fe aeth y Bwrdd Iechyd i'r afael â'r adborth trwy ychwanegu:

- rhagor o fanylion am ei gapasiti a'i allu i gyflawni'r cynllun mewn partneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau trawsffiniol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac atebolrwydd;

[2] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru a hynny'n flynyddol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru atal y broses CTCI ar gyfer 2020-23 ym mis Mawrth 2020, i ganiatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd hi'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig 2021 (cam un) ystyried trefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd.

- rhagor o fanylion am gynllunio ar gyfer adnewyddu a sut yr oedd hynny'n cyd-fynd â'r ymateb parhaus i COVID-19; a
- data modelu'r gweithlu pellach.

49 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Blynyddol terfynol yn ddiweddarach yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2021. Bu craffu da ar y fersiwn ddrafft a'r fersiwn derfynol, gyda'r Bwrdd yn ceisio sicrwydd bod y cynllun yn realistig ac yn un y gellir ei gyflawni.

50 Caiff y Cynllun Blynyddol terfynol ei ategu gan Gynllun Cyflawni sy'n nodi'r camau gweithredu manwl sy'n tanategu'r blaenoriaethau sefydliadol. Mae'r camau gweithredu'n rhai cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, perthnasol, uchelgeisiol a synhwyrol ac wedi'u haseinio i swyddog gweithredol cyfrifol.

51 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwerthuso i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth, gan gynnwys effaith y lleihad yng ngweithgarwch y GIG a'r effeithiau cymdeithasol ehangach oherwydd COVID-19. Mae wedi adnabod chwe blaenoriaeth adnewyddu[3] yn dilyn gwerthusiad llawn o effaith y pandemig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Portffolio Adnewyddu Strategol i lywio trawsnewid yn y chwe maes yma, mae wedi cael cyllid anghylchol o £2.5 miliwn a chyllid cyfalaf o £0.5 miliwn o Gronfa Adfer Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Adnewyddu Strategol yn uchelgeisiol ac o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Iechyd a Gofal 10 mlynedd. Ar adeg ein gwaith ni roedd y broses o'i rhoi ar waith wedi dechrau gyda rhaglenni o weithgarwch yn cael eu datblygu, a phob un ohonynt wedi'i haseinio i gyfarwyddwr arweiniol.

52 Darperir diweddariadau chwarterol ar gynnydd o ran cyflawni'r Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Adnewyddu Strategol ar gyfer y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad a'r Bwrdd. Cyflwynwyd y diweddariad ar gyfer cyfnod Chwarter 2 (Gorffennaf 2021 – Medi 2021) yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ar 1 Tachwedd 2021. Mae'r diweddariad yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter gyda phob un o'r camau gweithredu yn y ddau gynllun, gan gynnwys camau lliniarol lle'r oedd cynnydd wedi mynd oddi ar y trywydd iawn a meysydd a oedd yn wynebu risg. Roedd yr adroddiad diweddaru a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn nodi rhai risgiau mewn perthynas â gallu'r Bwrdd Iechyd i recriwtio staff i swyddi a'i ymateb parhaus i bandemig COVID-19.

53 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau partneriaeth cymhleth. Mae maint bach y boblogaeth a'r ardal ddaearyddol eang, ynghyd â set unigryw o drefniadau comisiynu ar gyfer gofal acíwt a gofal wedi'i gynllunio'n golygu bod cynllunio, comisiynu a llwybrau gofal yn gymhleth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithredu fel is-ranbarth o fewn ôl troed ehangach canolbarth Cymru, gan gydweithio gyda

[3] Y chwe blaenoriaeth adnewyddu yw: eiddilwch a modelau gofal cymunedol; cyflyrau hirdymor a lles; diagnosteg, triniaeth ddydd a gofal wedi'i gynllunio; cyngor, cymorth a chyn-sefydlu; plant a phobl ifanc; a mynd i'r afael â'r 4 Mawr (clefydau anadlol, canser, clefydau cylchredol ac iechyd meddwl).

sefydliadau gofal iechyd eraill trwy Gydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru (Cydweithrediaeth Canolbarth Cymru gynt). Fel a nodwyd ym **mharagraff 34 i 38** mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei strwythur pwyllgorau'n ddiweddar, a bydd y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth newydd yn craffu ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth. Ym mis Medi 2021, fel rhan o Ddatblygu'r Bwrdd, darparodd y Bwrdd Iechyd eglurder ynghylch y trefniadau partneriaeth cymhleth i aelodau annibynnol.

54 Ceir nifer o grwpiau partneriaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfranogi ynddynt, megis Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Rhaglen Iechyd a Gofal Gwledig Cymru. Darperir adroddiad diweddaru ar weithgarwch mewn partneriaeth ar gyfer y Bwrdd bob mis gan y Prif Weithredwr sy'n hysbysu ynghylch gwaith a wnaed gan bob grŵp partneriaeth.

## Systemau sicrwydd

55 Canfuom **fod angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a mynd i'r afael â gwendidau o ran rheoli risgiau gweithredol. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar les staff yn gadarnhaol, ac fe geir cynlluniau da i gefnogi cydnerthedd y Bwrdd Iechyd trwy aeaf 2021-22, ond mae angen ffocws i sicrhau bod trigolion Powys yn cael eu blaenoriaethu'n briodol gan wasanaethau a gomisiynwyd**

### Rheoli risg

56 **Er bod craffu da ar risgiau gan y Bwrdd, mae angen diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i sicrhau bod y Bwrdd yn craffu'n briodol ar risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol newydd. Mae gwaith i'w wneud o hyd i wella'r modd y rheolir risg, a mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd mewn adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol, gan gynnwys uwchgyfeirio risgiau'n briodol. Mae fframwaith rheoli risg newydd yn cael ei ddatblygu, a bydd angen hyfforddiant cynhwysfawr i sicrhau ei effeithiolrwydd.**

57 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i adlewyrchu blaenoriaethau strategol newydd y sefydliad. Mae COVID-19 wedi effeithio ar waith i gyflawni hyn. Felly, nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ers mis Ionawr 2020. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn bwriadu rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd o ran diwygio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021. Fodd bynnag, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd nodi'r risgiau i gyflawni'r amcanion strategol yn y Cynllun Blynyddol a chamau lliniarol a sefydlwyd. Fe barhaodd y Bwrdd i gael adroddiadau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y cyfnod hwn, gan ddarparu peth sicrwydd mewn perthynas â'r rheolaethau ar risgiau a chamau lliniarol sy'n bodoli. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod rhaid i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fod yn offeryn byw sy'n llywio agendâu ei gyfarfodydd a'i bod yn ofynnol craffu arno a'i oruchwylio'n rheolaidd.

58 Mae'r Bwrdd yn craffu ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mhob cyfarfod. Mae pob risg sy'n gysylltiedig â COVID-19 bellach yn cael ei chynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Fe newidiodd y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru ym mis Mehefin 2021 i reoli pryderon, cwynion a digwyddiadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi i fudo'r holl gofrestrau risgiau i'r un system ym mis Ebrill 2022. Ar hyn o bryd, mae'r cofrestrau risgiau mewn fformat gweithlyfr MS Excel. Mae hyn yn golygu bod rheoli cofrestrau risgiau'n llafurus, gyda'r angen am ymyrraeth â llaw i uwchgyfeirio risgiau rhwng gwahanol lefelau o gofrestrau. Bydd cyflwyno'r system newydd yn cryfhau goruchwyliaeth ar reoli risgiau yn fawr. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ymarfer mawr i safoni gwybodaeth mewn cofrestrau risgiau gwahanol, cyn mudo i'r system newydd.

59 Rhoddodd adolygiadau Archwilio Mewnol yn 2019 a 2020 sicrwydd cyfyngedig ynghylch rheoli risg. Roedd canfyddiadau'n cynnwys bod rhai cofrestrau risgiau ar lefel cyfarwyddiaethau yn eisiau ac felly bod diffyg dealltwriaeth am sut y dylai

risgiau gweithredol gael eu huwchgyfeirio'n briodol i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol[4]. Felly, nid oedd sicrwydd o gwbl bod yr holl risgiau ar y lefel uchaf wedi'i cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Fe wnaeth y Tîm Archwilio Mewnol amlygu diffyg hyfforddiant rheoli risg hefyd ynghyd â'r ffaith nad oedd unrhyw gofnodion o drafodaethau am risgiau yng nghyfarfodydd cyfarwyddiaethau ac adrannau.

60 Mae gwaith i'w wneud o hyd i ymdrin yn llawn â'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol, a bydd y Tîm Archwilio Mewnol yn asesu'r cynnydd yn 2022. Canfu ein Hadolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd yn 2021 fod rhai camau i liniaru risgiau'n eisiau ac nad oedd y dystiolaeth i ategu penderfyniadau i ostwng sgoriau risg yn glir.

61 Yn 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn adolygu ei drefniadau rheoli risg ac mae'n datblygu fframwaith rheoli risg newydd i gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021. Fe wnaeth y Bwrdd adolygu'r parodrwydd i dderbyn risg ym mis Gorffennaf 2021 ac fe gytunodd y dylai aros yr un fath.

62 Er bod hyfforddiant rheoli risg wedi cael ei ddarparu ar gais grwpiau gwasanaeth a thimau trwy gydol y pandemig, nid oes hyfforddiant rheoli risg ffurfiol eto. Mae cynlluniau yn 2021-22 i gyflwyno hyfforddiant rheoli risg cynhwysfawr yn seiliedig ar y trefniadau newydd.

## Sicrwydd ansawdd a diogelwch[5]

63 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i les staff a bod cynlluniau ar waith i ddatblygu cymorth pellach gyda lles yn ystod y flwyddyn. Mae ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n dal i fod yn ffocws, gyda chynlluniau allweddol ar waith i gefnogi cydnerthedd gwasanaethau trwy aeaf 2021-22, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod trigolion Powys yn cael eu blaenoriaethu'n briodol gan wasanaethau a gomisiynwyd i gefnogi deilliannau da ar gyfer cleifion.**

### Trefniadau lles staff

64 Ym mis Mehefin 2020, fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd arolwg mewnol o les[6]. Roedd yr argymhellion a ddeilliodd o'r arolwg yn cynnwys yr angen i sicrhau cyfathrebu

[4] Dylai'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol gynnwys y risgiau gweithredol lefel-uchaf o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer craffu ar lefel y Bwrdd.

[5] Rydym wedi cyfyngu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud ar drefniadau llywodraethu ansawdd fel rhan o'n hasesiad strwythuredig 2021 gan ein bod wedi cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Fe wnaeth yr adolygiad ystyried a yw trefniadau llywodraethu ansawdd y sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Cyhoeddwyd adroddiad ar ein canfyddiadau ym mis Tachwedd 2021.

[6] Cafodd y Bwrdd Iechyd ymatebion gan 279 o aelodau o staff.

cyson ynghylch COVID-19 ac i wella mynediad at gymorth ac adnoddau ar gyfer lles. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Hyb Lles ar y fewnrwyd ac yn ddiweddar fe gyflwynodd weithdai lles a hyfforddiant rheoli straen i staff.

65 Mae'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys ymrwymiad i wella cymorth i staff gyda'u lles fel un o'r blaenoriaethau allweddol yn 2021. Mae'r Cynllun Cyflawni ategol wedi nodi nifer o gamau gweithredu mewn perthynas â lles sydd wedi'u proffilio i gael eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys datblygu cynllun lefel uchel ar gyfer lles staff a'i roi ar waith, y bydd y Grŵp Lles yn y Gwaith yn gyfrifol amdano.

66 Yn 2021, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried a diweddaru'r blaenoriaethau yn ei Fframwaith Strategol Datblygu Sefydliadol i ymgorffori gwersi o bandemig COVID-19. Mae'r Fframwaith yn nodi egwyddorion dyluniad, datblygu a diwylliant sefydliadol ynghyd ag ymgysylltu ar draws y sefydliad. Mae'r Fframwaith wedi'i fwriadu i gefnogi adferiad o'r pandemig a gwaith i adnewyddu gwasanaethau. Ceir bwriad clir o fewn y Fframwaith Strategol Datblygu Sefydliadol i ddatblygu dull aml-haen lle mae ymgysylltu â staff a lles staff yn y cwestiwn, ac i gynorthwyo staff i adfer o'r pandemig. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan Bwyllgor y Gweithlu a Diwylliant yn ogystal â darparu diweddariadau chwarterol ar gyfer y Bwrdd.

### Ansawdd Gwasanaethau

67 Sefydliad sy'n comisiynu yw'r Bwrdd Iechyd yn bennaf, gyda'r gyfran fwyaf o'i gyllideb yn cael ei neilltuo i sicrhau gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio, gan sefydliadau cyfagos y GIG. Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod adnewyddu neu drawsnewid gofal iechyd yn dibynnu'n drwm ar wasanaethau a ddarperir gan gyrff iechyd a gofal cymdeithasol eraill yng Nghymru a Lloegr.

68 I fonitro ansawdd gwasanaethau datblygodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Comisiynu yn 2018. Proses sicrwydd barhaus yw'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynwyd yn ddiogel, yn bersonol, yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus. Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn cael Adroddiad Uwchgyfeirio Materion Comisiynu sy'n nodi unrhyw bryderon ynghylch ansawdd gwasanaethau a gomisiynwyd. Cyflwynir adroddiad (**paragraff 32**) i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad sy'n amlinellu perfformiad gan ddarparwyr a gomisiynwyd i'w gwneud yn bosibl craffu arno. Oherwydd yr heriau digynsail a ddeilliodd o roi'r gorau i wasanaethau rheolaidd yn gynnar yn y pandemig, ceir amseroedd aros helaeth ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei sicrhau bod darparwyr a gomisiynwyd yn blaenoriaethu yn seiliedig ar angen clinigol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau eu bod yn defnyddio trefniadau partneriaeth a nodir ym **mharagraffau 53** i **54** i sicrhau bod trigolion Powys yn cael eu blaenoriaethu'n briodol gan ddarparwyr a gomisiynwyd.

69 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei gwneud yn glir bod ei fwriadau comisiynu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys ymgysylltu â'r holl ddarparwyr i ddeall taflwybrau a'u dull o fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Rhoddodd adroddiad

diweddar i’r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ym mis Medi 2021 ar berfformiad gofal wedi’i gynllunio ddiweddariad lefel-uchel  am berfformiad gweithredol ar draws ystod o fesurau hefyd gan gynnwys diagnosteg, therapïau, gwyddorau gofal iechyd a gofal wedi’i gynllunio o fewn y Bwrdd Iechyd.

70 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd hydref a gaeaf 2021-22 yn gryn her, ac mae angen cymryd camau priodol i gynnal cydnerthedd gwasanaethau. Roedd papur i’r Bwrdd ym mis Medi 2021 yn nodi set o gamau gweithredu a ddatblygwyd ar y cyd ac y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Iechyd a rhanddeiliaid allweddol sy’n rhoi gofal i drigolion Powys. Mae’r camau gweithredu’n cynnwys:

- ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd am sut i gael mynediad at gyngor a chymorth mewn perthynas â gofal iechyd;
- cytundeb ar roi rhaglen brechu rhag COVID-19 a’r Ffliw yn yr Hydref/y Gaeaf ar waith
- cyflwyno gweithgarwch asesu a sgorio eiddilwch ledled Powys, gan ei gwneud yn bosibl canfod, cynllunio ac atal yn gynharach a chadw pobl yn iach ac yn annibynnol yn eu cartref;
- cyflymu cynigion ar gyfer y ward rithwir a defnyddio gwelyau camu i fyny (i gynyddu nifer y gwelyau); a
- rhoi gwasanaethau therapïau saith diwrnod ar waith o fis Tachwedd 2021.

## Tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac adolygu

71 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i fonitro cynnydd o ran ymateb i argymhellion archwilio ac adolygu, er bod angen ffocws ar nifer o argymhellion sy’n flaenoriaeth ganolig yn awr gan bod camau gweithredu’n hwyr yn cael eu cymryd.**

72 Cyflwynir adroddiad i’r Pwyllgor Gweithredol a’r Grŵp Sicrwydd a Risg ar statws a cham cyflawni’r holl argymhellion sy’n deillio o waith y Tîm Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru a’r Gwasanaethau Atal Twyll Lleol cyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

73 Yn ystod pandemig COVID-19, fe gytunodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i weithio o fewn graddfeydd amser wedi’u haddasu a gynigiwyd gan wasanaethau ar gyfer rhoi argymhellion ar waith. Diben hyn oedd helpu i leddfu’r pwysau ar wasanaethau wrth iddynt reoli pwysau digynsail, trwy ganiatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar gymryd camau gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion y rhoddwyd y flaenoriaeth uchaf iddynt a/neu’r rhai a oedd yn hanfodol i ymateb y sefydliad i COVID-19. Fe wnaed addasiadau pellach wrth i’r pandemig esblygu, gan ganiatáu mwy o drugaredd lle’r oedd yn bosibl.

74 Fe welsom gynnydd o ran rhoi argymhellion ar waith yn cael ei herio’n dda gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Ym mis Medi 2021, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad a oedd yn mynd at wraidd y mater ar y cynnydd gydag unrhyw argymhellion a oedd yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Nid yw’r papurau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Tachwedd 2021 yn cynnwys yr

adroddiad yn mynd at wraidd y mater y gofynnwyd amdano, ac mae'r offeryn tracio'n dynodi bod 15 o argymhellion y rhoddwyd blaenoriaeth ganolig iddynt, a oedd i fod i gael eu rhoi ar waith erbyn 30 Medi 2021, yn dal heb gael eu rhoi ar waith.

75 Caiff argymhellion arolygu ac adolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru eu gosod ar offeryn tracio ar wahân. Cyflwynir adroddiadau ar y cynnydd o ran rhoi'r camau gweithredu ar waith i'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch a hynny'n chwarterol. Fe wnaeth ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd fwrw golwg fanylach ar drosolwg ar ei raglen o archwiliadau clinigol.

# Rheoli adnoddau ariannol

76 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, ei reolaethau ariannol a'i drefniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

77 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei adnoddau ariannol yn dda, a cheir trefniadau da i fonitro ei weithgarwch ariannol ac adrodd arno. Fodd bynnag, bydd cyflawni arbedion sy'n ofynnol yn gryn her ac mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau y cyflwynir adroddiadau amserol i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

78 **Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21. Fodd bynnag, bydd cyrraedd targedau arbedion 2021-22 yn gryn her gyda'r holl arbedion sydd i'w cyflawni wedi'u proffilio yn chwe mis olaf y flwyddyn ariannol.**

### Perfformiad Ariannol 2020-21

79 Yn 2020-21, nododd y Bwrdd Iechyd warged o £143,000 yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd hefyd (2018-19 i 2020-21).

80 Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y costau refeniw a nododd y Bwrdd Iechyd yn ei gynllun ariannol ar gyfer 2020-21. Yn ystod 2020-21, cafodd y Bwrdd Iechyd £31.4 miliwn o gyllid refeniw a £2 filiwn o gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth cyllid ychwanegol gefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig, gan gynnwys sefydlu'r rhaglenni Profi, Olrhain, Diogelu a Brechu Torfol.

81 Cafodd y pandemig effaith hefyd ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei darged arbedion wedi'u cynllunio o £5.638 miliwn fel a nodwyd yn ei gynlluniau ariannol

gweiddiol ar gyfer 2020-21[7]. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi adnabod nifer o gynlluniau arfaethedig i gyflawni'r rhan fwyaf, ond nid y cyfan o'r targed arbedion. Fodd bynnag, trwy gydol y flwyddyn roedd adroddiadau'n cynnwys naratif ar yr effaith yr oedd COVID-19 yn ei chael ar y gallu i gyflawni'r arbedion wedi'u cynllunio. Ym mis 12, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwerth £487,000 o arbedion (gwariant ar gyflogau a gwariant heblaw cyflogau, gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau). Daeth y Bwrdd Iechyd ag arbedion heb eu cyflawni o £5.1 miliwn ymlaen i 2021-22.

## Perfformiad Ariannol 2021-22

82 Cafodd cynllun ariannol drafft y Bwrdd Iechyd 2021-22 ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Mawrth 2021 a'i gymeradwyo ym mis Mehefin 2021 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n nodi sefyllfa fantoledig ar gyfer 2021-22. Mae'r cynllun ariannol yn cynnwys diffyg sylfaenol o £5.6 miliwn a ddygwyd ymlaen o 2020-21 (arbedion gwerth £5.1 miliwn nas cyflawnwyd a £0.5 miliwn o bwysau cynyddol o ran costau).

83 Yn y cynllun ariannol, nododd y Bwrdd Iechyd uchelgais i gyflawni arbedion o £1.7 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn darged arbedion uchelgeisiol, ac o ran y sefyllfa ym Mis 6 roedd y Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau cynlluniau i gyflawni gwerth £1.3 miliwn o gyfanswm y targed ac wedi eu proffilio i gael eu cyflawni yn chwe mis olaf y flwyddyn.

84 Ym Mhwyllgor Cyflawni a Pherfformiad mis Tachwedd 2021, roedd yr adroddiad cyllid ar gyfer Mis 6 yn amlygu pryderon ynghylch gorwariannau ar gostau gofal iechyd parhaus a chodiadau parhaus mewn costau cyflogau amrywiol. Er bod y Bwrdd Iechyd yn dal i ragweld sefyllfa fantoledig ar ddiwedd y flwyddyn, roedd nifer sylweddol o risgiau yr oedd angen eu rheoli er mwyn cyflawni hyn.

85 Ar gyfer 2021-22 ym Mis 6, roedd y Bwrdd Iechyd yn disgwyl cael cyllid ychwanegol o £36 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith y Bwrdd Iechyd i ymateb i COVID-19 ac adfer ohono. Mae £2.5 miliwn o gyllid refeniw a £550,000 o gyllid cyfalaf anghylchol wedi cael ei ddyrannu i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithgareddau'r rhaglenni o fewn ei bortffolio strategol adnewyddu i gefnogi adferiad o COVID-19.

86 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2021 fod cytundeb y byddai trefniadau contractau bloc gyda darparwyr yn Lloegr yn aros yn eu lle tan ddiwedd y flwyddyn i sicrhau sefydlogrwydd ariannol parhaus yn ystod y pandemig. Yn adroddiad ariannol Mis 6 nodwyd, oherwydd parhad contractau bloc, na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni unrhyw arbedion sy'n gysylltiedig â chomisiynu. Ar adeg ein hadolygiad, er nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi dechrau ei broses cynllunio ariannol ffurfiol, roedd wedi darparu sylwebaeth fel rhan o'i adolygiad canol

[7] Hwn oedd y targed arbedion a nodwyd yn CTCI 2020-23, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd, ond nas cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru wedyn oherwydd y pandemig.

blwyddyn ar y sefyllfa ariannol tymor hwy. Rhagwelir mai £9.8 miliwn fydd y diffyg sylfaenol agoriadol ar gyfer 2022-23.

## Rheolaethau ariannol

87 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â rheolaethau da i fonitro gweithgarwch ariannol a gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19.**

88 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau penderfynu a llywodraethu ariannol penodol ar gyfer COVID-19, ac fe gyflwynwyd y rhain ar ddechrau'r pandemig yn 2020. Mae gan y Bwrdd Iechyd ganolfannau rheoli costau ar wahân ar gyfer COVID-19 sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod gwariant penodol ac adrodd arno. Caiff gwariant mewn perthynas â COVID-19 ei gynnwys ar y ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru ac fe adroddir arno mewn papurau cyllid i'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r rheolaethau ariannol sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben, gan gael eu diwygio ddiwethaf ym mis Medi 2021 lle ychwanegwyd canolfannau costau ychwanegol ar gyfer adferiad ac adnewyddu, yn ogystal â'r cyfeiriad at ddisodli Cyfarfodydd Aur â chyfarfodydd gweithredol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi craffu ar y gweithdrefnau rheolaeth ariannol diweddaredig hyn. Ni nodwyd unrhyw wendidau arwyddocaol o ran rheolaethau o'n gwaith i ffurfio barn ar gyfrifon 2020-21 yn y Bwrdd Iechyd.

89 Ym mis Medi 2021, fe gymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd weithdrefnau rheolaeth gyllidebol wedi'u diweddaru hefyd sy'n nodi'r egwyddorion a'r prosesau ar gyfer rheolaeth o ddydd i ddydd ar gyllidebau'r Bwrdd Iechyd ac sy'n crynhoi cyfrifoldebau deiliaid cyllidebau a'r adran gyllid. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi diweddaru ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, yn unol â'r safonau cenedlaethol (Gweler **Arddangosyn 6**, **2018 A7**).

90 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar gaffael, colledion a thaliadau arbennig a materion atal twyll. Mae adroddiadau caffael yn nodi'n glir beth yw nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol a'r Awdurdodiadau Dyfynbris Unigol a'r rhesymau pan na wnaeth swyddogion ddilyn gweithdrefnau caffael safonol.

91 Lle mae camau gweithredu gan Gadeiryddion y tu allan i bwyllgorau wedi bod yn angenrheidiol, ceir log o'r penderfyniad, tystiolaeth o graffu gan y Bwrdd a chadarnhad dilynol gan y Bwrdd. Serch hynny, nid oedd unrhyw gamau gweithredu gan gadeiryddion yn angenrheidiol yn 2021-22.

92 Mae Gwasanaeth Atal Twyll y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd ar ei waith a'i gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae rhaglen barhaus o waith yn ei lle i godi ymwybyddiaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth ymhlith yr holl staff ac ymarferwyr ar draws yr holl safleoedd. Er dechrau'r flwyddyn ariannol mae'r tîm Atal Twyll wedi darparu 12 o sesiynau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o dwyll.

93 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cymeradwyaeth a chefnogaeth i fabwysiadu dull gofal iechyd seiliedig ar werthoedd o fewn i Gynllun Blynyddol 2021-22. Mae wedi nodi rhaglen i gael ei chyflawni yn ystod y flwyddyn, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Mae Bwrdd Rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd wedi cael ei sefydlu i reoli'r Rhaglen. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Fframwaith Effeithlonrwydd fel cam cyntaf i gefnogi'r rhaglen gofal iechyd seiliedig ar werthoedd. Ceir pedair ffrwd waith, 'llwybrau a systemau', 'gwariant heblaw cyflogau, caffael a gofal iechyd parhaus', 'effeithlonrwydd y gweithlu' a 'rheoli meddyginiaethau'. Ceir pedwar cynllun arbedion penodol[8] y rhagamcanwyd y byddant yn rhyddhau gwerth £316,000 o arbedion, ac ym Mis 6 roedd y rhain i gyd wedi cael sgôr ambr o ran eu cyflawni. Fe wnaeth diweddariad i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2021 nodi'r cynnydd hyd yma. Roedd yn amlygu, er bod prosesau recriwtio wrthi'n mynd rhagddynt ar gyfer swyddi amrywiol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, mai cyfyngedig oedd y diddordeb ynddynt am mai swyddi byrdymor ydynt.

94 Bydd adroddiadau misol ar gynnydd o ran perfformiad a chyflawni arbedion yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r papurau safonol ar berfformiad cyllid.

**Arddangosyn 6: cynnydd a wnaed gydag argymhellion blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog**<br>**Asesiad Strwythuredig 2018 A7**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o ystyried mai yn 2016 y cawsant eu diweddaru ddiwethaf | **Wedi'i gwblhau**<br>Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fabwysiadu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a ddiweddarwyd yn genedlaethol ym mis Gorffennaf 2021. |

## Monitro ac adrodd

95 **Mae gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth glir a hygyrch i fonitro'i berfformiad ariannol ac adrodd arno, ac mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pwyllgorau'n cael gwybodaeth amserol.**

96 Mae'r Bwrdd yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad ariannol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd, ac rydym wedi gweld craffu da ar ei gynnwys. Ochr yn ochr â chyflwyniadau ar lafar gan swyddogion, mae'r adroddiadau'n darparu cyd-destun o

[8] Y pedwar cynllun arbedion yw gofal llygaid, adferiad a gofal wedi'i gynllunio, model eiddilwch a diabetes.

ran y rhesymau dros orwariannau neu danwariannau a'r ffactorau sy'n effeithio ar wireddu arbedion wedi'u cynllunio. Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd o fewn papurau'r Bwrdd. Canfu ein hadolygiad ni o'r adroddiadau ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd eu bod yn darparu gwybodaeth amserol o ansawdd da am berfformiad ariannol, gan gynnwys arbedion ariannol a ffactorau sy'n rheoli costau mewn perthynas â COVID-19 (gweler **Arddangosyn 7**, **2019 A1c**). Mae adroddiadau ariannol yn amlygu risgiau ychwanegol i gael eu hystyried gan aelodau annibynnol hefyd.

97 Yn ein Hasesiadau Strwythuredig yn 2018 a 2019 fe wnaethom nodi y gellid newid amseriad rhagflaenwyr y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad er mwyn ei gwneud yn bosibl craffu ar wybodaeth ariannol fwy amserol, ac i osgoi sefyllfa lle'r oedd adroddiadau ariannol yn cael eu hanfon yn hwyr at aelodau Pwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu amseriad Pwyllgorau a hefyd cynnwys yr adroddiad ar gyfer pwyllgorau a'r Bwrdd i sicrhau bod yr wybodaeth gywir i sicrhau sicrwydd a chraffu'n dod i law mewn modd amserol. (Gweler **Arddangosyn 7**, **2018 A5** ac **Arddangosyn 7**, **2019 A1a**, **b ac c**).

**Arddangosyn 7: cynnydd a wnaed gydag argymhellion blynyddoedd blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Amseriad Pwyllgorau**<br>**Asesiad Strwythuredig 2018 A5**<br>Nid yw amseriad cylch busnes y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad[9] yn caniatáu craffu manwl ar yr adroddiad ariannol diweddaraf cyn cyfarfod y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau i alluogi craffu manwl ar yr adroddiadau ariannol misol. | **Wedi'i ddisodli**<br>Gan 2019 A1 (gweler isod). |
| **Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**<br>**Asesiad Strwythuredig 2019 A1**<br>Mae rhai problemau gyda gweithrediad y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau[10]. Nid yw'r Pwyllgor wastad yn cael adroddiadau ar gyllid a pherfformiad i graffu arnynt cyn y Bwrdd. Mae papurau cyllid hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar ôl y brif set o bapurau gan leihau'r amser sydd ar gael i baratoi. Er bod cynllun gwaith y Pwyllgor yn dynodi y bydd yn cael adroddiadau ar gyflawni arbedion ym mhob cyfarfod, nid felly y mae hi bob amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) adolygu trefn cyfarfodydd i sicrhau bod amseriad cyfarfodydd yn cefnogi gwaith craffu manwl ar gyllid a pherfformiad gan y Pwyllgor;<br>b) sicrhau bod papurau cyllid yn cael eu llunio a'u dosbarthu mewn modd amserol; ac | **Ar y gweill**<br>a) Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad a'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor bellach yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol, gan alluogi'r Bwrdd i gymryd sicrwydd o waith craffu'r Pwyllgor.<br>b) Ymddengys fod amseroldeb papurau ariannol i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad yn gwella.<br>c) Mae adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn darparu gwybodaeth amserol o ansawdd da am berfformiad ariannol, gan gynnwys arbedion ariannol a ffactorau sy'n rheoli costau mewn perthynas â COVID-19. |

[9] Ym mis Mawrth 2019 fe newidiodd y Pwyllgor hwn i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac yna ym mis Medi 2021 fe newidiodd eto i'r Pwyllgor Cyflawni ac Adnoddau.

[10] Newidiodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ym mis Medi 2021.

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| c) darparu adroddiadau ar gyflawni arbedion ar gyfer pob cyfarfod i gefnogi gwaith craffu ar y modd y bydd methiant i gyflawni rhai cynlluniau’n cael ei liniaru i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu mantoli ar ddiwedd 2019-20. | |

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 8: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Sefydlu aelodau annibynnol**<br>A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn profi cyfnod o newid sylweddol o fewn ei garfan o aelodau annibynnol. Rhaid i aelodau annibynnol gael eu cynorthwyo'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau trwy ddarparu rhaglen sefydlu ddigonol a datblygiad parhaus er mwyn iddynt allu craffu'n effeithiol ar yr wybodaeth a gyflwynir iddynt. I ategu'r rhaglen sefydlu genedlaethol, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen leol o | Adolygu a chryfhau'r trefniadau sefydlu ar gyfer Aelodau Annibynnol i wella dealltwriaeth gynnar am fusnes corfforaethol. I gynnwys:<br>• Gwybodaeth gefndir am sefydlu'r Bwrdd Iechyd<br>• Llywodraethu da a strwythur Pwyllgorau<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br>• Cylch cyfarfodydd a Chylchoedd Gorchwyl<br>• Rolau a chyfrifoldebau<br>• Datganiadau o Fuddiant a Safonau Ymddygiad<br>• Cynlluniau Strategol<br>• Rôl Ymddiriedolwyr Elusennol | 31 Mawrth 2022 | Ysgrifennydd Interim y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| hyfforddiant sefydlu cyn gynted â phosibl i helpu aelodau annibynnol newydd i ymgynefino'n gyflym â'u rôl. | • Sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth am y Bwrdd Iechyd | | |
| **Penodi aelodau cyswllt o'r Bwrdd**<br>A2 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw aelodau cyswllt o'r Bwrdd ar hyn o bryd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Yn flaenorol roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion) o Gyngor Sir Powys yn aelod cyswllt o'r Bwrdd ond nid yw wedi mynychu. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Sir Powys i ganfod rhywun addas yn ei le cyn gynted â phosibl. | Bydd Ysgrifennydd Interim y Bwrdd yn ymgysylltu â Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys i ganfod Cyfarwyddwr Cyswllt yn ei le. | 31 Mawrth 2022 | Ysgrifennydd Interim y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Papurau agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau**<br>A3 Trefnir bod bwndeli agendâu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, ar rai achlysuron caiff rhai papurau eu darparu'n hwyr a'u hychwanegu at fwndel ar wahân a elwir yn 'bapurau atodol'. Nid yw papurau hwyr yn caniatáu digon o amser ar gyfer craffu ac mae defnyddio'r term papurau atodol yn gamarweiniol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau cyn gynted â phosibl bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn:<br>• lleihau, hyd y gellir, yr arfer o gynnwys papurau hwyr;<br>• rhoi'r gorau i'r arfer o enwi papurau hwyr yn rhai 'atodol'; ac<br>• ymgorffori papurau hwyr ym mhrif fwndel yr agenda wrth gyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar y wefan. | Bydd y broses ragweithiol o adnabod 'papurau hwyr' posibl/wedi'u trefnu yn parhau gyda Chadeirydd y Bwrdd/Pwyllgor penodol; gan gyfyngu i'r eithaf ar bapurau hwyr.<br><br>Mae camau gweithredu pellach yn cynnwys:<br>• nid yw unrhyw 'bapurau hwyr' yn cael eu henwi'n rhai 'atodol' mwyach<br>• caiff papurau eu hymgorffori fel rhan o brif fwndel yr agenda wrth gyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar y wefan.<br><br>Cydnabyddir ar rai achlysuron y bydd papurau hwyr yn ofynnol. Bydd y Cyfarwyddwr Cyswllt Busnes Corfforaethol ac Ysgrifennydd Interim y Bwrdd yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i adolygu a gwreiddio'r broses ac egwyddorion ar gyfer cyflwyno papurau. | Gweithredu ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyswllt Busnes Corfforaethol ac Ysgrifennydd Interim y Bwrdd |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.